**Ein Proses Asesu**

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am y rôl hon, byddwch yn ymwybodol y bydd eich cais yn cael ei sifftio i benderfynu addasrwydd i symud ymlaen i gyfweliad ac asesu.

Bydd y camau hidlo a'r cyfweliad ac asesu dilynol yn adolygu'r meini prawf canlynol:

| Meini Prawf Hanfodol | Aseswyd adeg Sifftio | Asesu mewn Cyfweliad / Asesiad |
|---|---|---|
| Profiad sylweddol o weithio o fewn a chyflawni prosiectau cymhleth ar raddfa fawr neu newid sefydliadol. | ✓ | |
| Cymhwysedd technegol profedig a gefnogir yn broffesiynol mewn technegau rheoli prosiectau a phrofiad o gynllunio a chyflawni prosiectau newid sylweddol. | ✓ | |
| Sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu eithriadol – yn ysgrifenedig ac ar lafar – gan gynnwys llunio naratifau ac achosion newid cymhellol. | ✓ | |
| Y gallu i sefydlu a chynnal cydberthnasau cryf sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth i herio a dylanwadu'n adeiladol ar eraill a symud tuag at weledigaeth neu nod cyffredin. | | ✓ |
| Y gallu i hwyluso gweithdai a chyfarfodydd yn effeithiol gyda chydweithwyr ac uwch reolwyr er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni'n llwyddiannus. | | ✓ |
| Dangos ymrwymiad personol i gyflawni a gwerthu newid, gan gynnwys bod yn barod i herio a chael eich herio. Gweithio ar draws meysydd gwasanaeth i adeiladu, ysbrydoli a chymell tîm prosiect effeithiol. | ✓ | |
| Creu amgylchedd lle mae pobl yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau tîm a defnyddio adnoddau i'r effaith orau wrth gyflawni canlyniadau. | | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Gweld y darlun mawr a gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol faterion yng ngoleuni blaenoriaethau busnes a gwleidyddol, gan nodi ac ystyried amrywiaeth o opsiynau i ddatrys problem. | ✓ | |
| Datblygu perthnasoedd effeithiol â chwsmeriaid neu ddefnyddwyr gwasanaeth i nodi eu hanghenion, cydbwyso gofynion cystadleuol a darparu atebion ymarferol. | | ✓ |
| Cymryd cyfrifoldeb unigol am eich cynllun gwaith eich hun, gyda'r gallu i weithio'n rhagweithiol, blaenoriaethu adnoddau i gyflawni'n brydlon, safonau ansawdd y cytunwyd arnynt ac yn y meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf. | ✓ | |
| Y gallu i ddatblygu, rheoli a hyfforddi gweithwyr proffesiynol llai profiadol. Hyrwyddo dulliau arloesol o ymgysylltu â'r rhaglen newid. | | ✓ |